# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Hydref 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

## (291)v3

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei benderfyniad i ddiswyddo cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan Ewrop ar gyfer 2014-2020? EAQ(4)2513(FM)

## 3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru – Tlodi ac Anghydraddoldeb

(60 munud)

**NDM5842 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Dlodi yng Nghymru: tlodi ac anghydraddoldeb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2015.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM5832**

**Mick Antoniw (Pontypridd) R**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ymfalchïo yn y berthynas dda sydd wedi'i sefydlu yng Nghymru rhwng cyflogwyr, undebau llafur a gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; a

2. Yn credu:

a) bod Bil Undebau Llafur Llywodraeth y DU yn ymosodiad diangen ar hawliau democrataidd pobl sy'n gweithio ac y bydd yn tanseilio'r cysylltiadau diwydiannol da ac adeiladol sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru ers 1999;

b) bod peryg y bydd y Bil yn mynd yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a chonfensiynau 87, 98 a 151 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol; a

c) bod y Bil yn ymyrryd â meysydd y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt ac na ddylid ei gymhwyso i Gymru heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Bil Undebau Llafur (Saesneg yn unig)

Deddf Hawliau Dynol 1998 (Saesneg yn unig)

Confensiynau 87, 98 a 151 y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (Saesneg yn unig)

**Cefnogir gan:**

Alun Davies (Blaenau Gwent)
Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Eluned Parrott (Canol De Cymru)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)
David Rees (Aberafan)
Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)
Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Ann Jones (Dyffryn Clwyd)

Christine Chapman (Cwm Cynon)
Aled Roberts (Gogledd Cymru)
Gwenda Thomas (Castell-nedd)
William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Jeff Cuthbert (Caerffili)
Lynne Neagle (Torfaen)
Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Keith Davies (Llanelli)
Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)
Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)
Sandy Mewies (Delyn)

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5843 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth digonol i ddiwallu anghenion penodol cymunedau gwledig Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod rownd arall o fanciau wedi'u cau yng nghefn gwlad Cymru yn ddiweddar.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal cyfarfod brys gyda banciau manwerthu mawr i annog cefnogaeth ar gyfer model bancio cymunedol a sicrhau presenoldeb bancio lleol cynaliadwy mewn cymunedau gwledig.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i dalu rhan sylweddol o'r taliad sylfaenol i gymaint o ffermwyr â phosibl ar y cyfle cyntaf o fewn cyfnod talu'r Cynllun Taliad Sylfaenol.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gynllun o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n cynnig cyllid mwy hygyrch ar raddfa fach i wella gwydnwch ac effeithlonrwydd ffermydd Cymru.

**Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddileu'r rheol chwe diwrnod ar wahardd symud yn gynnar.

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5844 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Diogelu cleifion yn Sir Benfro - pam mae angen gwasanaethau hanfodol yn Ysbyty Llwynhelyg

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Hydref 2015 i'w hateb ar 14 Hydref 2015

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A oes gan y Gweinidog gynlluniau i ddyrannu cyllid ychwanegol i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0619(FIN)W

2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau penderfyniad Llywodraeth y DU i gyhoeddi ei hadolygiad o wariant ar ddiwedd mis Tachwedd? OAQ(4)0615(FIN)

3. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gall Llywodraeth Cymru i gael yr effaith orau posibl o bolisi caffael? OAQ(4)0611(FIN)

4. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad seilwaith mawr yng ngorllewin Nghymru? OAQ(4)0606(FIN)

5. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn dyrannu i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau? OAQ(4)0616(FIN)

6. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau ynghylch bargen ddinesig posibl yng Nghymru? OAQ(4)0614(FIN)

7. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithrediad rhwng Cymru ac Iwerddon mewn perthynas â rhaglenni Ewropeaidd? OAQ(4)0610(FIN)W

8. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid a ddyrannwyd i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0608(FIN)

9. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y grŵp gorchwyl a sefydlwyd i fwrw ymlaen â chynnig caffael diweddar Cyngres Undebau Llafur Cymru? OAQ(4)0617(FIN)

**10. Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at weithredu llawr Barnett? OAQ(4)0613(FIN)

**11. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y gyllideb ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0612(FIN)

**12. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ynghylch adolygiad cynhwysfawr o wariant arfaethedig Llywodraeth y DU? OAQ(4)0618(FIN)

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad Llywodraeth Cymru at fenthyciadau i ariannu gwariant cyfalaf? OAQ(4)0607(FIN)

**14. Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae toriadau Llywodraeth y DU wedi effeithio ar gyllideb Cymru? OAQ(4)0609(FIN)

**15. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0605(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganoli cyfrifoldebau i awdurdodau lleol? OAQ(4)0627(PS)

**2. Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddyfodol cyllid llywodraeth leol? OAQ(4)0626(PS)

**3. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru am ddiogelwch cymunedol? OAQ(4)0622(PS)**W**

**4. Elin Jones (Ceredigion)**: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am effaith newidiadau i gontractau cymorth cyfreithiol troseddol ar wasanaethau yng Nghymru wledig? OAQ(4)0623(PS)**W**

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A yw'r Gweinidog wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y gwasanaeth tân er mwyn trafod nifer cynyddol yr achosion o danau bwriadol yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0621(PS)

**6. David Rees (Aberafan):** Pa effaith y bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i gyhoeddi ei hadolygiad o wariant mor hwyr yn ei chael ar lywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0629(PS)

**7. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0620(PS)

**8. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa effaith fydd Bil undebau llafur Llywodraeth y DU yn ei chael ar weithlu'r sector cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0619(PS)

**9. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllidebol y portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0617(PS)

**10. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0613(PS)

**11. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau atebolrwydd llawn mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0604(PS)

**12. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0625(PS)

**13. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i awdurdodau lleol mewn perthynas â choffáu'r aberth a wnaed gan filwyr ar gofebion? OAQ(4)0618(PS)

**14. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffactorau sy'n effeithio ar allu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau sylfaenol? OAQ(4)0630(PS)

**15. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r lluoedd arfog yng Nghymru? OAQ(4)0615(PS)